**ADRODDIAD I'R CABINET**
{13 Medi 2016)

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Ioan Thomas**

**Pwnc: Strategaeth "Mwy na Llyfrau" y Gwasanaeth Llyfrgell**

**Swyddog cyswllt: Sioned E. Williams, Pennaeth Economi a Chymuned**

---

**Y penderfyniad a geisir**

Mabwysiadu Strategaeth "Mwy na Llyfrau" ar gyfer Gwasanaeth Llyfrgell Cyngor Gwynedd.

---

**Barn yr aelod lleol**

Mater Sirol

---

**1.Cyflwyniad.**
1.1 Cyflwynir yma strategaeth ar gyfer Gwasanaeth Llyfrgell Cyngor Gwynedd. Mae'r Strategaeth, "Mwy na Llyfrau", yn nodi yr hyn y dymunai Gwasanaeth Llyfrgell Cyngor Gwynedd ei ddarparu i drigolion yr awdurdod ar gyfer y cyfnod 2017– 2020.

**2. Cefndir**
2.1 Mae darparu Gwasanaeth Llyfrgell 'cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sydd yn dymuno ei ddefnyddio' yn ofyniad statudol o dan y Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.

2.2 Mae **Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru** (SLlCC) yn asesu a yw awdurdodau lleol yn cyflawni'r dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf. Caiff yr awdurdod ei asesu yn flynyddol yn erbyn y Safonau hyn. Mae'r Safonau hefyd yn rhoi arweiniad i awdurdodau fel Cyngor Gwynedd ar yr hyn y mae disgwyl iddynt ei ddarparu gan eu Gwasanaeth Llyfrgell er mwyn cyfarch anghenion a disgwyliadau trigolion lleol.

2.3 Nododd Asesiad Safonau 2012/3 Cyngor Gwynedd bod lefel staffio isel iawn y gwasanaeth, o'i gymharu â'r Safon Cenedlaethol, yn debygol o amharu ar allu'r gwasanaeth i gyflenwi gwasanaeth cynhwysfawr. Yn sgil hynny aethpwyd ati i adolygu'r Gwasanaeth.

2.4 Cwblhawyd **adolygiad o'r gwasanaeth llyfrgell** yn 2013-2014 o dan arweiniad Panel Ymgynghorol o Aelodau. Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad

oedd parhau i gynnal y gwasanaeth llyfrgell yn ei ffurf bresennol yn gynaliadwy wrth gynllunio i'r dyfodol. Nododd yr adolygiad hefyd nad oedd y gwasanaeth ar ei ffurf bresennol yn barod i ymateb i her y datblygiadau digidol, ac i newidiadau yn arferion darllen a chwilio am wybodaeth gan ddefnyddwyr.

2.5 Argymhellodd y Panel Ymgynghorol fod angen datblygu Strategaeth Llyfrgell fyddai'n cynnwys dull darparu i gyfarch anghenion y Safonau Llyfrgell, ymateb i newid yn arferion darllen a chanfod gwybodaeth defnyddwyr.

2.6 Ers diwedd 2014 mae'r Gwasanaeth Llyfrgell wedi bod yn gweithio ar dynnu Strategaeth Llyfrgell ynghyd a hynny yn ystod cyfnod ariannol heriol i'r awdurdod.

2.7 Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2014, cymeradwyodd y Cabinet gynnig **arbedion effeithiolrwydd** i sefydlu "Cyfeiriad Strategol a Model darparu Newydd i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd", gan ofyn i'r Gwasanaeth gyflwyno achos fusnes manwl i'r Cabinet cyn gweithredu a sicrhau cynnal asesiad cydraddoldeb cynhwysfawr o effaith unrhyw newid posib.

2.8 Aeth y Gwasanaeth Llyfrgell ati i lunio Strategaeth Llyfrgell ac asesiad effaith cydraddoldeb i gyfarch argymhellion yr adolygiad, a'r cyfyngiadau cyllidol drwy gyfundrefn arbedion effeithiolrwydd y Cyngor.

2.9 Comisiynwyd cwmni annibynnol i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu barn a syniadau trigolion, defnyddwyr a phartneriaid ar gynnwys y strategaeth honno, sef "Mwy na Llyfrau" yn ystod Mai - Gorffennaf 2015.

2.10 Cafwyd ystod o argymhellion yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad cyhoeddus oedd yn tynnu ynghyd yr adborth a gasglwyd gan y cyhoedd a'n partneriaid a cyflwynwyd hwy i'r Gwasanaeth Llyfrgell ym mis Medi 2015.

2.11 Nododd yr adroddiad hefyd fod angen addasu'r weledigaeth a chryfhau rhai o'r blaenoriaethau. Cadarnhawyd nad oedd parhau gyda'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy, ond fod amharodrwydd cyffredinol ymysg y cyhoedd i weld unrhyw newid i'r rhwydwaith o lyfrgelloedd, hyd yn oed mewn cyd-destun ariannol heriol. Un o argymhellion yr ymgynghorwyr oedd y dylid, yn ogystal â chynnal naw prif lyfrgell, ystyried cynnig "sefydlu llyfrgelloedd cymunedol dan arweiniad yr awdurdod" yn yr wyth lleoliad sydd gyda llyfrgell ar agor am lai nag 20 awr.

2.12 Cyflwynwyd adroddiad yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r asesiad effaith cydraddoldeb i Gabinet Cyngor Gwynedd ar y 3ydd o Dachwedd 2015. Penderfynodd y Cabinet i ohirio'r "*penderfyniad terfynol ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd tan ar ôl Her Gwynedd".* Roedd y Cabinet o'r farn fod angen ystyried canlyniadau **Her Gwynedd** a blaenoriaethau pobl

Gwynedd cyn penderfynu symud ymlaen gyda datblygu Strategaeth “Mwy na Llyfrau”.

2.13 Mae’r adroddiad hwnnw i’w weld drwy’r linc canlynol https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=133&mid=1547&ver=4&

2.14 Rhwng Medi a Rhagfyr 2015, dechreuodd y Cyngor ar y broses o adnabod toriadau posib i wasanaethau drwy gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ‘Her Gwynedd’ ledled yr awdurdod. Yn dilyn penderfyniad Cabinet (16 Chwefror 2016) penderfynodd y Cyngor Llawn o aelodau (3 Mawrth 2016) i gefnogi **toriad o 25% (£65,000) ar y gyllideb prynu llyfrau o Ebrill 2016 ymlaen.**

2.15 Penderfynodd y Cyngor Llawn na ddylai’r Gwasanaeth Llyfrgell wynebu toriad uwchlaw y targed arbedion effeithiolrwydd i’w chyllideb. Fel mae strategaeth ariannol y Cyngor yn nodi mae disgwyl fod gan y gwasanaeth gynllun effeithlonrwydd i sicrhau arbedion o £101,370, drwy adolygu’r ddarpariaeth llyfrgelloedd yr awdurdod. Roedd y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad Her Gwynedd yn cadarnhau eu bod yn fodlon gweld newid i’r rhwydwaith o adeiladau llyfrgell ond nid oeddent yn dymuno i weld yr awdurdod yn mynd ymhellach. Nodwyd y dylai’r Gwasanaeth ystyried, wrth ddatblygu’r cynllun darparu, pa mor anodd yw hi i ardaloedd gwledig ddarganfod gwirfoddolwyr a hefyd ystyried effaith ar y gwahanol grwpiau oedran fel sydd wedi ei adnabod yn yr asesiad cydraddoldeb.

2.16 Roedd yr ymatebion i Her Gwynedd hefyd wedi dangos cefnogaeth i warchod y gwasanaeth teithiol yn arbennig i’r henoed a phlant.

2.17 Gyda **llai o gyllideb** ar gael ar gyfer cynnal y gwasanaeth ac ar gyfer prynu llyfrau (drwy’r gyfundrefn arbedion a thoriadau Her Gwynedd) nid oes modd cynnal y rhwydwaith presennol o lyfrgelloedd; na cheisio cynnig trefniant llyfrgell gymunedol i bob un o’r wyth cymuned fel y nodwyd fel argymhelliad gan yr ymgynghorwyr ym mis Medi 2015.

2.18 Yn sgil penderfyniadau ynghylch cyllideb y Gwasanaeth Llyfrgell, ynghyd a’r adborth ddaeth drwy’r broses ymgynghori cyhoeddus ar “Mwy Na Llyfrau” a Her Gwynedd; ynghyd a chasgliadau’r asesiad effaith cydraddoldeb mae’r Gwasanaeth Llyfrgell wedi diwygio ac addasu’r strategaeth.

## 3. Strategaeth “Mwy na Llyfrau”

3.1 Mae’r Strategaeth “Mwy na Llyfrau” wedi ei chynnwys yn <u>atodiad 1</u>.

3.2 Mae’r Strategaeth yn nodi **gweledigaeth** i’r Gwasanaeth Llyfrgell sef “Gwella ansawdd bywyd trigolion Gwynedd trwy gyflenwi gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon”;

3.3 **Amcanion** “Mwy na Llyfrau” yw

- Hyrwyddo darllen a mynediad at ddeunydd print a digidol i ddefnydd addysgol, hamdden ac iechyd a lles
- Darparu a chyfeirio trigolion at adnoddau gwybodaeth a darllen o’r ansawdd gorau
- Cefnogi a hybu’r defnydd o’r gwasanaeth a’i adeiladau fel mannau cymunedol anffurfiol a ffurfiol aml bwrpas a gwasanaethau y tu hwnt i lyfrau

3.4 Drwy’r Strategaeth bydd y Gwasanaeth Llyfrgell yn canolbwyntio ar bump **maes blaenoriaeth** sef,

- y cynnig darllen
- y cynnig gwybodaeth,
- y cynnig iechyd a lles,
- y cynnig dysgu,
- a’r cynnig digidol

3.5 Er mwyn cyflawni’r Strategaeth hon oddi fewn i’r gyllideb sydd ar gael mae’r strategaeth yn argymell categoreiddio’r math o ddarpariaeth / llyfrgell sydd ei angen yn yr awdurdod.

3.6 Mae‘r Strategaeth hon yn awgrymu categorïau darpariaeth sy’n defnyddio ymarfer da sydd wedi ei adnabod gan Lywodraeth Cymru mewn rhannau eraill o’r wlad ac wedi eu haddasu i gyd-destun gwledig Gwynedd.

3.7 Mae’r categorïau darpariaeth ar gyfer Strategaeth “Mwy na Llyfrau” yn cymryd ystyriaeth o’r canlynol :

- Poblogaeth a phatrymau demograffig
- Patrwm defnydd gan aelodau cyfredol llyfrgelloedd
- Pellter o lyfrgell (yn arbennig felly yr angen i Gyngor Gwynedd sicrhau fod o leiaf 70% o’r aelwydydd o fewn 3 milltir neu 15 munud o amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus i adeilad llyfrgell sefydlog, neu o fewn chwarter milltir i arosfan llyfrgell deithiol.
- Tueddiadau perfformiad e.e. cyfanrif ymweliadau a benthyciadau pob awr.
- Ystyriaethau cydraddoldeb e.e. grwpiau oedran 0-14 a rhai dros 65 / Iaith
- Amddifadedd a Mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus

3.8 Mae’r Strategaeth felly yn argymell symud i ddarpariaeth sy’n seiliedig ar:-

- **Llyfrgelloedd Dalgylch**
- **Llyfrgelloedd Cymunedol o dan reolaeth y Cyngor**
- **Gwasanaethau Teithiol**
- **Ddolen neu Gyswllt Cymunedol**

3.9 Gan ddefnyddio ystadegau poblogaeth, ystadegau perfformiad a chost defnydd y llyfrgelloedd presennol, anghenion cydraddoldeb yn unol a chasgliadau'r asesiad; yn unol a diffiniadau'r categorïau mae'r Strategaeth yn cynnig cynnal :- Naw Llyfrgell Dalgylch yn Bangor, Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli, Dolgellau, Blaenau Ffestiniog, Tywyn, Abermaw ac Y Bala; Pedair Llyfrgell Gymunedol yn Bethesda, Penygroes, Nefyn a Cricieth; a Gwasanaethau Teithiol - fel y ffordd ddarparu fwyaf cynhwysfawr ac effeithlon ar gyfer Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd o fewn y gyllideb sydd ar gael.

3.10 Mae defnyddio'r categoreiddio hwn yn adnabod y lleoliadau hynny nad oes modd i'r Gwasanaeth Llyfrgell barhau i'w cynnal fel ag y maent ar hyn o bryd. Felly mae'r Strategaeth yn cynnig mewn pedair cymuned fod y ddarpariaeth bresennol o gynnal gwasanaeth llyfrgell o adeilad yn dod i ben sef Llanberis, Deiniolen, Harlech a Penrhyndeudraeth. Ond oherwydd tebygrwydd effaith cymdeithasol hyn cynigir y categori 'Dolen Cymunedol' er mwyn lliniaru effeithiau cymdeithasol ar y gymuned ac er mwyn cynnal mynediad trigolion y gymuned honno drwy ddulliau amgen i'r gwasanaeth.

3.11 Byddai gweithredu'r Strategaeth yn unol a diffiniadau y categorïau yn golygu, y bydd **newid yn digwydd ar draws y rhwydwaith bresennol** o lyfrgelloedd. Bydd yn golygu rhesymoli a chwtogi oriau agor ymysg y llyfrgelloedd dalgylch, rhesymoli oriau a newid mewn trefniadau rheoli adeiladau gyda'r llyfrgelloedd cymunedol, ac addasu lleoliadau ac amseru arosfannau y Gwasanaethau Teithiol.

3.12 Cyflwynwyd y Strategaeth i'r **Pwyllgor Craffu Cymunedau** ar y 5ed o Fai 2016 gan ofyn i'r aelodau ystyried y camau sydd wedi eu cymryd i ddatblygu'r strategaeth ac i graffu'r rhesymeg dros yr hyn a argymhellir yn Strategaeth "Mwy na Llyfrau". Cafwyd trafodaeth ar y strategaeth a craffwyd ei chynnwys a'i rhesymeg. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn y strategaeth yn fras, ond amlygwyd y ddau brif fater canlynol;
- Pryder ar roi pwysau ychwanegol ar Gynghorau Cymuned yn sgil y modelau newydd a bod angen cynnal trafodaeth am y capasiti hyn gyda'r gymuned leol
- Yr angen i gyfuno llyfrgelloedd gydag asedau eraill y Cyngor

3.13 Mae'r adroddiad hwnnw i'w weld drwy'r linc canlynol https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=144&mid=1705&ver=4&

3.14 Yn unol a sylwadau'r Pwyllgor Craffu mae'r Gwasanaeth Llyfrgell wedi ymgysylltu gyda'r cynghorau cymuned perthnasol, a phartneriaid trydydd sector eraill i drafod y modelau newydd gyda hwy (sef Llyfrgelloedd Cymunedol o dan reolaeth yr awdurdod a Dolenni Cymunedol).

## 4. Effaith Strategaeth “Mwy na Llyfrau”.

4.1 Effaith Cydraddoldeb

4.1.1 Yn unol a’r dyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb o’r strategaeth (gweler atodiad 2) wrth iddi gael ei datblygu. Diweddarwyd yr asesiad effaith yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, yn dilyn penderfyniadau Her Gwynedd ac yn sgil y trafodaethau lleol.

4.1.2 Mae asesiad effaith cydraddoldeb wedi ei gwblhau ar gyfer pob lleoliad unigol; ac mae casgliadau’r asesiadau hynny wedi eu defnyddio i lunio’r Strategaeth, ynghyd ag i lunio mesurau lliniaru lleol os yn berthnasol. Gellid cael copïau o’r asesiadau unigol drwy’r Gwasanaeth Llyfrgell.

4.1.3 Mae asesiad effaith cydraddoldeb y Strategaeth yn tynnu ynghyd effeithiau tebygol y Strategaeth ar gyfer y sir gyfan, ond hefyd yn tynnu ynghyd effeithiau tebygol ar y grwpiau gwarchodedig yn y cymunedau hynny a effeithir fwyaf gan y Strategaeth.

4.1.4 Mae asesiad effaith y Strategaeth felly yn amlygu ardrawiad negyddol yn bennaf i grwpiau oedran pobl hyn a rhieni gyda plant bychain (dan 5 oed) yn sgil cwtogi’r rhwydwaith mannau llyfrgell sefydlog.

4.1.5 Mae’r strategaeth wedi ei haddasu i gyfarch yr effeithiau negyddol hyn megis addasu’r gwasanaeth teithiol a sefydlu trefniadau mynediad amgen.

4.1.6 Wedi ystyriaeth lawn deuir i’r casgliad fod y Strategaeth yn cyfarch yr effeithiau posibl sydd wedi eu hadnabod.

4.2 Effaith i’r Dinesydd

4.2.1 Mae Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLlCC) yn asesu a yw awdurdodau lleol yn cyflawni’r dyletswyddau statudol. Mae’r Safonau hefyd yn asesu os yw’r gwasanaeth a ddarperir yn cyfarch anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid y llyfrgell a thrigolion lleol.

4.2.2 Rydym yn rhagweld y bydd gostyngiad sylweddol ym **mherfformiad** y Gwasanaeth yn erbyn y Safonau Cenedlaethol yn 2016-17 a hynny oherwydd y toriad sydd wedi bod i’r gyllideb brynu llyfrau yn bennaf. Nid ydym yn rhagweld y bydd mabwysiadu’r strategaeth hon yn cael effaith andwyol ar berfformiad y Gwasanaeth.

4.2.3 Bydd Llywodraeth Cymru yn rhyddhau Fframwaith Asesu newydd i’r Safonau Cenedlaethol yn yr Hydref eleni ar gyfer y cyfnod 2017/18 -

2019/20 ac felly ni ellir rhagweld beth fydd effaith y strategaeth yn erbyn safonau'r fframwaith hwnnw ar hyn o bryd.

4.3 Effaith Gofodol

4.3.1 Mae i'r strategaeth fwy o effaith ar rai cymunedau yn yr awdurdod, yn benodol felly yn yr wyth cymuned ble yr argymhellir newid i'r trefniant presennol.

4.3.2 Rydym wedi trafod y strategaeth gyda cynghorau cymuned a phartneriaid eraill yn yr wyth cymuned yma. Dylid nodi fod y gwrthwynebiad a'r amharodrwydd cyffredinol i weld unrhyw newid i'r rhwydwaith o lyfrgelloedd yn parhau.

4.3.3 Fodd bynnag mae ymateb cadarnhaol wedi bod gan y pedair cymuned ble argymhellir sefydlu Llyfrgell Gymunedol. Mae'r Cynghorau Cymuned a Phartneriaid eraill wedi datgan parodrwydd i gydweithio gyda'r Gwasanaeth Llyfrgell i sefydlu trefniant o'r fath os y mabwysiedir y Strategaeth gan y Cyngor.

4.3.4 Mae'r ymateb yn y pedair cymuned ble argymhellir dod a'r ddarpariaeth bresennol i ben a sefydlu Dolen wedi bod yn amrywiol iawn, ond ar y cyfan yn gwrthwynebu'r newid.

4.3.5 Crynhoir yr ymatebion yn atodiad 3.

4.4 Yn seiliedig ar yr ymatebion o'r gwahanol gymunedau nid ydym o'r farn fod unrhyw wybodaeth, na thystiolaeth wedi dod i law sydd yn awgrymu y dylid addasu'r strategaeth; nid yw'r wybodaeth sydd wedi dod i law ychwaith yn amlygu ystyriaethau pellach o ran yr asesiad effaith cydraddoldeb. Dylid fodd bynnag gydnabod fod nifer o'r cymunedau wedi amlygu fod colli neu newid y ddarpariaeth llyfrgell yn dod a sgil-effeithiau cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol pellgyrhaeddol; a bod y gwrthwynebiad sydd wedi ei ddatgan yn cyfleu hynny mewn sawl cymuned.

**5. Argymhellion.**

5.1 Mabwysiadu Strategaeth "Mwy na Llyfrau 2016-2020" ar gyfer Gwasanaeth Llyfrgell Cyngor Gwynedd.

**6. Ystyriaethau Perthnasol.**

**6.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

6.1.1 Mae dyletswydd i weithredu yn unol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth weithredu yn

unol a'r dyletswydd mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu'r cynnig ger bron.

6.1.2 Wrth lunio ac ystyried y strategaeth "Mwy na Llyfrau 2016-2020" mae ystyriaeth wedi ei roi materion yma a bod y cynnig ger bron unol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y strategaeth ac yn y modd yr aethpwyd ati i'w ddatblygu. Gweler hefyd cyfeiriad penodol at y ddeddf ar dudalen 9 o'r Strategaeth. Yn amlwg wrth i'r strategaeth ddatblygu, bydd angen ystyried gofynion y Ddeddf ac ystyried y cynigion penodol yn erbyn gofynion y ddeddf.

### *6.2* Cyd-destun Ariannol.

6.2.1 Fel sydd eisoes wedi ei nodi ar ddechrau'r adroddiad fe ddangosodd yr adolygiad nad yw'r gyllideb bresennol yn ddigonol i gynnal y gwasanaeth fel ag y maes ar hyn o bryd, a bod parhau i gynnal y gwasanaeth ar ei ffurf bresennol yn anghynaladwy i'r dyfodol.

6.2.2 Mae strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2015/16 - 2017/18 yn disgwyl cyfraniad o'r Gwasanaeth Llyfrgell tuag at arbedion effeithlonrwydd.

6.2.3 Byddai gwireddu y Strategaeth yn arwain at arbedion effeithlonrwydd o £101,370 (gweler atodiad 4).

6.2.4 Rhagwelir gwireddu'r arbedion yn ystod 2017-18 yn unol a'r rhaglen waith a nodir yn adran 8 isod.

### 6.3 Prif Risgiau

6.3.1 Mae gwireddu'r Strategaeth hon yn llwyddiannus yn ddibynnol ar gydweithrediad cynghorau cymuned, partneriaid a defnyddwyr y gwasanaeth.

6.3.2 Mae gwireddu'r newidiadau i fannau gwasanaeth ( yn arbennig felly yn yr wyth cymuned yr argymhellir y newid mwyaf) yn ddibynnol ar barhau i drafod gyda cynghorau cymuned a phartneriaid eraill; a gall y negydu hwnnw amlygu rhwystrau, bryderon, ddiffyg capasiti, diffyg adnoddau, angen am fuddsoddiad neu unrhyw fater arall na ellir eu rhagweld ar hyn o bryd.

6.3.3 Mae gwireddu'r Strategaeth hon yn llwyddiannus hefyd yn ddibynnol ar gydweithrediad gwasanaethau eraill oddi fewn i'r Cyngor. Mae'r rhaglen waith i roi'r strategaeth mewn lle yn dod a goblygiadau i adnoddau gwasanaethau eraill.

6.3.4 Yn dilyn o’r uchod mi all rhai o’r goblygiadau hyn fod yn destun penderfyniadau pellach gan y Cyngor, yn arbennig o ystyried defnydd a dyfodol safleoedd unigol, ac ymrwymiadau gwasanaethau eraill o’r Cyngor.

## 7. Camau nesaf ac amserlen

7.1 Nodir yr amserlen isod ar gyfer rhoi’r Strategaeth ar waith :-

| **Hydref - Rhagfyr 2016** | **Ionawr - Mawrth 2017** | **Ebrill - Mehefin 2017** | **Gorffennaf - Medi 2017** |
|---|---|---|---|
| Gweithredu'r newidiadau yn y llyfrgelloedd dalgylch erbyn Ionawr 2017. | | | |
| | Gweithredu’r newid a sefydlu y llyfrgelloedd Cymunedol erbyn 30 o Fawrth 2017 yn Penygroes a Criccieth | | Gweithredu’r newid a sefydlu y llyfrgelloedd Cymunedol erbyn Medi 2017 ym Methesda a Nefyn. |
| Gweithredu’r newid o ddod a’r ddarpariaeth bresennol i ben mewn pedair cymuned erbyn diwedd Mawrth 2017. | | | |
| | | Gweithredu’r newid o sefydlu’r Dolenni Cymunedol mewn pedair cymuned o Ebrill 2017 ymlaen. | |
| Gweithredu’r newid i’r Gwasanaeth Teithiol o 1af Ebrill 2017 – Medi 2017 i gydweddu gyda’r newidiadau uchod. | | | |

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
“Yn amlwg, yn sgil penderfyniadau’r Cyngor ar arbedion yn y maes hwn , mae newid yn anorfod. Mae’r adroddiad yn cydnabod y risgiau sydd ynghlwm a’r newid a’i effaith a rhaid i’r Cabinet fod yn effro i hynny a’r camau lliniaru sydd yn cael eu cymryd wrth wneud y penderfyniad.”

**Y Swyddog Monitro:**
“Fe nodir o’r adroddiad fod proses hir a chynhwysol wedi ei ymgymryd ynglŷn â datblygu’r strategaeth. Mae’r strategaeth yn cyfarch y gofynion statudol sydd ar y Cyngor ac yn adnabod modd o ddiwallu hyn. Mae’r Cyngor wedi ymgymryd â phrosesau eang o ran ymgynghori, ac wedi asesu’r strategaeth o ran cydraddoldeb ac wedi pwyso a mesur yr elfennau yma wrth ddod i’r argymhellion. Bydd angen parhau i asesu yn erbyn y gofynion statudol (gan gynnwys materion Deddf Llesiant a chydraddoldeb) wrth geisio gwireddu'r weledigaeth o fewn y strategaeth”.

**Y Swyddog Cyllid:**
“Cadarnhaf fod y ffigyrau sy'n Atodiad 4 yn amcangyfrifon teg o effaith cynnig yr Adran i newid y ddarpariaeth gwasanaeth llyfrgell, a byddai hynny yn debygol o ddarganfod y cyfanswm arbedion net o £101,370 disgwylir yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn ar y 3ydd o Fawrth 2016. Nodaf fydd gwireddu’r strategaeth yn amodol ar drafodaethau gyda rhai cynghorau cymuned a gweithrediad rhai gwasanaethau eraill o'r Cyngor.”

---

**Atodiadau**
**Atodiad 1 – Strategaeth “Mwy na Llyfrau: 2016-2020”**
**Atodiad 2 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb “Mwy na Llyfrau”**
**Atodiad 3 – Effaith Gofodol “Mwy na Llyfrau” – ymatebion lleol.**
**Atodiad 4 – Cyfrifiadau Arbedion Effeithlonrwydd**